

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd Dydd Gwener 23 Mehefin, 2.30 – 4.00 pm**

**Gorsaf Heddlu Bae Caerdydd**

**Ystafell Gynadledda 1**

<p><b><u>Yn bresennol:</u></b></p> <p><b>Aelodau'r Bwrdd</b></p> <p>Y Cynghorydd Huw Thomas  <b>(Cadeirydd)</b>  Paul Orders  Sarah McGill</p> <p>Len Richards  Fiona Kinghorn  Huw Jakeway  Nadia De Longhi  Sheila Hendrickson-Brown  Alun Michael  Mark Brace  Belinda Davies  Peter Greenhill  Victoria Harris</p> <p><b>Ymddiheuriadau:</b></p> <p>Maria Battle <b>(Is-gadeirydd)</b>  Sharon Hopkins  Gareth O'Shea  Peter Vaughan  Anne Wei</p> <p><b>Hefyd yn bresennol:</b></p> <p>Gareth Newell  Nathan Swain (Clerc)  Clive Bailey  Sereen Kutubi  Yr Athro Adam Fletcher  Jess Hoare</p>	<p>Arweinydd Cyngor Caerdydd  Prif Weithredwr, Cyngor Caerdydd  Cyfarwyddwr - Cymunedau, Tai a Gwasanaethau Cwsmeriaid, Cyngor Caerdydd  Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  Dirprwy Gyfarwyddwr, Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro  Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru  Rheolwr Gweithrediadau, Cyfoeth Naturiol Cymru  Prif Swyddog Gweithredol, C3SC  Comisiynydd Heddlu a Throseddu  Comisiynydd Cynorthwyol Heddlu a Throseddu  Prif Uwcharolygydd  Pennaeth Uned Darpariaeth Leol, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru  Pennaeth Dros Dro Uned Ddarpariaeth Leol Caerdydd a'r Fro</p> <p>Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIY C&amp;F)  Prif Weithredwr Dros Dro, (BIP C&amp;F)  Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC  Prif Gwnstabl, Heddlu De Cymru  Rheolwr Partneriaethau a Chynllunio Strategol, BIP C&amp;F</p> <p>Rheolwr Polisi, Partneriaethau ac Ymchwil, Cyngor Dinas Caerdydd  Prif Swyddog Polisi a Phartneriaethau, Cyngor Caerdydd  Swyddog Polisi a Phartneriaethau, Cyngor Caerdydd  Swyddog Polisi a Phartneriaethau, Cyngor Caerdydd  Cyfarwyddwr Academaidd, NESTA/Y Lab (Eitem 6)  Rheolwr Rhaglen, Y Lab (Eitem 6)</p>
------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Rhif	Eitem Agenda	
1.	<p><b>Croeso a Chyflwyniad</b> Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nodi'r ymddiheuriadau fel uchod.</p>	
2.	<p><b>Cofnodion a chymau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus</b> Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2017.</p> <p><b>Cofnodion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gweithredol 7 Mehefin 2017</b></p> <p>Nododd FK bod angen diwygio'r geiriad yn Eitem 9 – o Bwrdd Gwella Gwasanaethau Cyngor Caerdydd i Bwrdd Gwella Gwasanaethau Plant Cyngor Caerdydd</p> <p>Nododd AM fod y Strategaeth Cysgu ar y Stryd yn rhywbeth i'w ystyried gan y BGC. Nodwyd bod y Strategaeth honno wedi ei thrafod gan y BGC Gweithredol, ond y gellid dod â'r Cynllun Gweithredu i'r BGC yn y dyfodol.</p> <p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwygio Eitem 9: Rhoi Bwrdd Gwella Gwasanaethau Plant Cyngor Caerdydd yn lle Bwrdd Gwella Gwasanaethau Cyngor Caerdydd</li> <li>• Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Cysgu ar y Stryd i'w ystyried gan BGC mewn cyfarfod yn y dyfodol.</li> </ul>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p>
3.	<p><b>Cylch Gorchwyl</b></p> <p>Nododd AM, yn sgil adolygiad gyda'i Ymgynghorydd Cyfreithiol, y gallai fod angen newid rywfaint ar y geiriad yn y Cylch Gorchwyl (angen cynnwys Deddfau ychwanegol ac angen diwygio'r cyfeiriad at yr Heddlu). Nododd PO y byddai'n cynorthwyo gyda hyn.</p> <p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwygio Adrannau 2.2 a 2.3 i gynnwys cyfeiriad at y ddeddfwriaeth Diogelwch Cymunedol berthnasol.</li> <li>• Y Cylch Gorchwyl i gynnwys yr ychwanegiad a wnaed i 2.4 yn ymwneud â'r ffaith mai'r BGC Gweithredol yw Partneriaeth Diogelwch Cymunedol statudol y ddinas.</li> <li>• Newid y cyfeiriad i Heddlu De Cymru yn 2.4 i Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru</li> <li>• Lluoio geiriad newydd ar gyfer 'cyfranogwyr a wahoddwyd' yn unol â'r Ddeddf WCFG.</li> </ul>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddai'r Cyngor a'r Heddlu a Swyddfa'r Comisiynydd Troseddau yn cydweithio ar y diwygiadau uchod.</li> </ul> <p><b>CYMERADWYWYD</b> cylch gorchwyl y BGC yn amodol ar y newidiadau uchod.</p>	<b>Ysgrifenyddiaeth</b>
<b>4.</b>	<p><b>Twf Cynhwysol ac Anghydraddoldeb</b></p> <p>Rhoddodd GN gyflwyniad yn amlinellu amddifadedd ac anghydraddoldeb mewn ardaloedd yng Nghaerdydd. Roedd y cyflwyniad hefyd yn manylu ar ardal Trelái/Caerau.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ar rôl y BGC wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr angen i gael gwasanaethau mwy integredig ar lefel leol, tra hefyd yn cydnabod pwysigrwydd dylanwad datblygiad economaidd, addysg a chyfleoedd gwaith yng Nghaerdydd drwyddi draw</p> <p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymchwilio i berthynas gyda DWP i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r farchnad lafur</li> <li>• Ymchwilio sut y gellid defnyddio adnoddau profiant i fynd i'r afael â materion teuluol ehangach a sut y gellid eu cyrchu ar lefel leol, e.e. drwy'r Hybiau.</li> <li>• Ystyried Trelái/Caerau fel lleoliad ar gyfer dull darparu gwasanaethau plant wedi eu seilio ar le</li> </ul>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth</b> <b>/Sarah McGill</b> <b>Peter Greenhill/</b> <b>Sarah McGill</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p>
<b>5.</b>	<p><b>Asesiad Llesiant Lleol &amp; Cynllun Llesiant Lleol</b></p> <p>Eglurodd GN y bydd amcanion llesiant drafft yn cael eu cyflwyno i'r comisiwn er mwyn derbyn sylwadau a chyngor. Bydd gwaith yn dechrau nawr drwy'r Grŵp Cyngor ar Bolisi i ddatblygu'r cynllun ar sail yr amcanion hyn.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ar yr amcanion llesiant a gynigwyd gan Grŵp Cyngor ar Bolisi'r BGC. Nodwyd a chymeradwywyd y diwygiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Nododd BD bod angen cynnwys ACE gydag Amcan 4.</li> <li>- Awgrymodd AM ddiwygio geiriad Amcan 3 i 'Cymunedau sydd yn Ddiogel, Hyderus ac wedi eu Hymbweru'.</li> <li>- Gofynnodd SHB am gael gwahanu Gweithio'n Lleol ac Ymglymu Cymunedol o fewn Amcan 3.</li> <li>- Awgrymodd HT newid Amcan 7 i 'Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus'.</li> </ul>	

	<p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno'r Amcanion Llesiant drafft i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol am gyngor;</li> <li>• Dweud wrth y Grŵp Cyngor ar Bopeth i gytuno ar strwythur i'r cynllun llesiant a datblygu camau dan bob amcan; a</li> <li>• Dweud wrth y Grŵp Cyngor ar Bolisi i ddatblygu cyfres o ddangosyddion i fesur cynnydd yn erbyn yr Amcanion Llesiant wedi eu cytuno.</li> </ul>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Grŵp Cyngor ar Bolisi</b></p> <p><b>Grŵp Cyngor ar Bolisi</b></p>
6.	<p><b>Hyb Arloesi</b></p> <p>Amlinellodd AF a JH y dull sy'n cael ei ddefnyddio i ddatblygu project peilot, gan awgrymu pedwar maes blaenoriaeth (Llygredd Aer/Parthau Plant/Cysgu ar y Stryd/Ynysu Cymdeithasol ymhlith pobl hŷn).</p> <p>Cafwyd trafodaeth ar y meysydd blaenoriaeth ac yn sgil yr eitem flaenorol ar Anghydraddoldeb ac Amddifadedd cytunwyd y dylai'r project peilot cyntaf ganolbwyntio ar wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc.</p> <p>Gofynnodd HT i bob Cynghorydd gael ei gynnwys yn y gwaith o chwilio am awgrymiadau o fewn y maes a ddewiswyd.</p> <p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dirprwyo cyfrifoldeb i'r BGC Gweithredol i roi cychwyn ar y project peilot Arloesi.</li> <li>• Gwahodd awgrymiadau ynghylch maes blaenoriaeth unigol, h.y. gwella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.</li> <li>• Gweithio gydag Y Lab i gefnogi ymgynghoriad staff drwy e-bost ym mis Gorffennaf.</li> </ul>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p> <p><b>Y Lab/NESTA</b></p> <p><b>Ysgrifenyddiaeth /pawb</b></p>
7.	<p><b>Grŵp Gorchwyl BGC - diweddariadau</b></p> <p><b>CYTUNWYD</b> dirprwyo cyfrifoldeb dros fwrw ymlaen â darpariaeth Modiwl Hyfforddi Partneriaeth i'r BGC Gweithredol.</p>	<p><b>Ysgrifenyddiaeth</b></p>
8.	<p><b>Sgano'r Gorwel ac Unrhyw Fusnes Arall</b></p> <p>Amlinellodd HJ y gwaith ar adolygu tyrau uchel aml-lawr yn Ne Cymru a'u deunyddiau cladio. Ni chafwyd hyd i rai preswyl â'r un cladin â Thŵr Grenfell, Llundain.</p>	

	<p><b>CYTUNWYD:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Tân ac Achub De Cymru a Chyngor Caerdydd i gynhyrchu asesiad diogelwch tân ar y stoc tai.</li> </ul>	<p><b>Huw Jakeway/ Sarah McGill</b></p>
9.	<p><b>Dyddiad y cyfarfod nesaf:</b></p> <p>I'w drefnu ar gyfer diwedd Medi 2017 (cytuno ar fersiwn ymgynghori'r cynllun llesiant)</p>	